

DANGOSFWRDD DOFEDNOD


Hydref 2020 – Medi 2021



% y gweithgaredd sy'n berthnasol i'r sector Dofednod:

38% O WEITHGAREDD DOFEDNOD

MAE **399** O FUSNESAU SYDD WEDI COFRESTRU GYDA CYSWLLT FFERMIO YN DOD O'R SECTOR DOFEDNOD



Y Rhwydwaith Arddangos

Wern: Sychu sarn ieir gan ddefnyddio bacteria di-heintus yn safle arddangos dofednod Wern

Mae arbrawf ar fferm wyau maes ym Mhowys wedi dangos y gallai ychwanegu bacteria di-heintus i amgylchedd siediau dofednod er mwyn sychu sarn a lleihau lefelau amonia helpu ffermydd i fodloni sialsensiau'r rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) newydd.

Mae Osian Williams, sy'n ffermio yn Wern, yr unig safle arddangos dofednod Cyswllt Ffermio yng Nghymru, wedi bod yn treialu dull newydd er mwyn sicrhau'r amgylchedd gorau yn eu dwy sied aml-haen sy'n cynnwys 16,000 o ieir.

Mae hyn wedi golygu na fu angen glanhau baw o'r beltiau tail mor aml, sef unwaith bob pythefnos yn lle unwaith bob tri diwrnod, ac mae ieir yn delio gyda sialsensiau gwiddon coch mewn ffordd naturiol trwy gynnal lefelau iechyd da.

Mae'r gyfradd farwolaethau wedi gostwng, o 3.7% i 2.7% mewn cymhariaeth â'r un wythnos yn yr haid ddiwethaf. Yn seiliedig ar feincodi systemau tebyg, mae'r gyfradd isel hon o farwolaethau ymysg yr 1% uchaf o gynhyrchwyr. Mae Osian hefyd wedi gweld nad oes angen defnyddio gwrthfotigau.

Nod yr arbrawf yw canfod pa amrywiaethau a oedd yn sicrhau'r amgylchedd orau posibl yn y sied. Trwy gyflwyno bacteria di-heintus sy'n debyg i bridd, ar ffurf sefydlogydd Pruex, i'r sied, cynhyrchir anwedd dŵr a bydd y sarn yn sychu. Yn Wern, mae'r effaith hon yn amlwg wrth weld gostyngiad sylweddol yn swm y baw ar feltiau tail ac mae'r busnes yn gallu dal baw ieir ar y beltiau am bythefnos yn hytrach na thri diwrnod. Cyn y treial, roedd 70% o'r baw yn lleithder ac roedd pwysau hwn ar y belt tail yn golygu bod angen ei glirio yn fwy aml.

Yn ystod y prosiect, mae Pruex wedi llwyddo i leihau'r lleithder yn y baw ar y beltiau gymaint â dros 50% o'r lefelau gwreiddiol. Mae hyn wedi lleihau'r gofyniad llafur ar gyfer y dasg hon gymaint â dros dri chwarter ac mae'r lefelau amonia yn isel ac wedi lleihau 75% yn ystod misoedd cynhesach yr haf, o 20 rhan fesul miliwn i 5.

Canolfan Cyfnewid Gwybodaeth

Cyhoeddwyd yr erthyglau technegol canlynol gan y Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth:

RHAN 1: ALLYRIADAU NWYON TŶ GWYDR AC EFFEITHIAU AMGYLCHEDDOL Y DIWYDIANT DOFEDNOD

RHAN 2: ALLYRIADAU NWYON TŶ GWYDR AC EFFEITHIAU AMGYLCHEDDOL Y DIWYDIANT DOFEDNOD

LLYGREDD AER: RÔL AMAETHYDDIAETH YNG NGHYMRU

LLYGREDD AER: LLEIHIAU ALLYRIADAU AMONIA DRWY ADDASU DULLIAU RHEOLI DA BYW

Agrisgôp

CYNHALIWDYD **19** CYFARFOD YN YMWNEUD Â DOFEDNOD

Dyma rai enghreifftiau o themâu'r grŵp:

Arallgyfeirio i Ddofednod



Lleihau Lefelau Amonia



Technoleg Newydd



Storio Dŵr a thail



Grwpiau Trafod



14 CYFARFOD GRŴP TRAFOD

gyda



138

O FYNICHWYR

Cafodd dau grŵp trafod, un o Ganolbarth Cymru a'r llall o Ogledd Cymru, y cyfle i feincodi agweddau ffisegol ac ariannol mentrau dofednod gyda Jason Gittins, Cyfarwyddwr Technegol Da Byw gyda RSK ADAS.

Ar ôl casglu'r data ynghyd, cynhaliwyd cyfarfod i drafod a gwerthuso'r canfyddiadau. Trafodwyd y manylion yn agored fel bod aelodau'r grŵp yn gallu cael dealltwriaeth lawn o ganlyniadau eraill a'r math o ffigyrau y dylid anelu tuag atynt.

Roedd y data a gasglwyd yn cynnwys:

- Dyddiad dod â'r adar i'r sied (mis a blwyddyn)
- Maint yr haid Brid
- Math o sied (un llawr neu aml lawr)
- Gwybodaeth gefndirol
- Oedran yr haid wrth ddod â nhw i'r sied (wythnosau)

Perfformiad yr haid

Nifer yr wyau fesul aderyn hyd at 76 wythnos (neu hyd at y cyfnod diboblogi os oedd hynny'n llai na 76 wythnos) yn seiliedig ar nifer y cywennod yn y sied

Oedran diboblogi (wythnosau)

Nifer yr wyau fesul aderyn hyd at ddiboblogi (os oedd hynny'n fwy na 76 wythnos)

Pwysau cyfartalog yr wyau (gram)

Mas wyau fesul iâr yn y sied (kg)

Canran yr wyau eilradd – ar y fferm a'r ganolfan becynnu (%)

Cyfradd farwolaeth yr haid hyd at 76 wythnos (neu hyd at ddiboblogi os oedd hynny'n llai na 76 wythnos)

Cyfradd farwolaeth yr haid (os oedden nhw dros 76 wythnos)

Cymeriant bwyd yn seiliedig ar nifer yr adar yn y sied (gram fesul aderyn fesul diwrnod)

Ariannol

Pris cywennod (£ fesul aderyn)

Pris porthiant (£ fesul tunnell ar sail 'pwysau' ar gyfer yr haid os oedd gwahanol borthiant yn cael ei ddefnyddio a/neu os oedd y pris wedi amrywio)

Prisiau cyfartalog ar gyfer wyau, yr holl wyau gan gynnwys wyau eilradd (ceiniog fesul dwsin)

Pris ieir ar ddiwedd eu hoes dodwy (ceiniog fesul aderyn)

Trafodwyd yr ystod rhwng canlyniadau a pham bod rhai busnesau'n perfformio'n well na'i gilydd. Cynigiwyd cyngor ymysg aelodau'r grŵp, yn ogystal â chynghor gan Jason ynglŷn â sut i wella rhai agweddau. Roedd yn gyfarfod gwych gydag ymgysylltiad da rhwng yr holl aelodau a oedd yn bresennol.

Digwyddiadau Ymwybyddiaeth Strategol

Cynhaliwyd 33 Digwyddiad

Roedd y prif bynciau'n cynnwys:

Rheoli eich tail dofednod



Rheoliadau Dŵr Dofednod



Arloesi ac arallgyfeirio: Gwerthu ar-lein



Hyfforddiant pasbort Lion: Beth yw'r gofynion newydd?



*Mae themâu digwyddiadau Ymwybyddiaeth Strategol yn aml yn ymwneud â sawl sector ac felly'n dueddol o ddenu ffermwyr o bob sector.

Cymorthfeydd



Roedd y prif bynciau'n cynnwys:



Mae nifer o ffermwyr dofednod wedi derbyn cyngor isadeiledd yn ystod y cyfnod hwn i drafod goblygiadau'r rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol ar eu busnesau.

Mentora

Mae gennym ni **4 Mentor Dofednod** ar y fframwaith



Cliciwch yma i weld proffil Helen



Cliciwch yma i weld proffil Malcolm



Cliciwch yma i weld proffil Mark



Cliciwch yma i weld proffil Sian

MAE 4% O'R RHAI SY'N CAEL EU MENTORA YN DERBYN CYNGOR YN YMWNEUD Â MATERION DOFEDNOD (GALLAI HYNNY GYNNWYS NEWYDD DDYFODIAID I'R SECTOR).

Pynciau a drafodwyd:



Hyfforddiant

Cafwyd **5** cyfnod ymgeisio rhwng mis Hydref 2020 a Medi 2021 (ac eithrio cyfnodau ail-ymgeisio oherwydd Covid) gyda **866** achos o hyfforddiant yn cael ei ddarparu yn ystod y cyfnod.

O'r nifer hwn, roedd **61** o'r achosion o'r sector dofednod.

Cyriau

Lles Dofednod (Pasbort Dofednod), Hylendid a Bioggielwch (Pasbort Dofednod), Lion Training Passport: Bioggielwch, Diogelwch a Thrin a Thrafod Wyau, Paratoi ar gyfer Rheoliadau IPPC (Diwydiant Dofednod)



E-ddysgu

Mae rhai o'r cyrsiau e-ddysgu a gwblhawyd yn ystod y cyfnod hwn yn ymwneud â'r sector Dofednod yn cynnwys:



Am ragor o fanylion ynglŷn ag e-ddysgu, ewch i'r [wefan](#).

EIP Cymru




Leihau allyriadau amonia o gynhyrchiant ieir brwyliaid

Mae amonia yn un o ganlyniadau anochel o ffermio dofednod, sy'n cael ei gynhyrchu wrth i dail dofednod bydru. Fodd bynnag, mae hyn yn cael effaith sylweddol ar yr amgylchedd ac ansawdd yr aer, yn ogystal ag effeithio ar lesiant adar ac economeg y fenter. Yn aml, bydd ceisiadau cynllunio ar gyfer gweithrediadau dofednod yn cael eu gwrthod oherwydd y risgiau a ddaw o lefelau amonia uchel, sy'n dangos bod angen i'r diwydiant ymdrin â'r broblem a chwilio am ffordd o leihau allyriadau.

Gellir lleihau allyriadau drwy ymgorffori sgrymbwyr mecanyddol drud i stripio'r amonia o'r aer. Mae'r prosiect hwn gan EIP Cymru yn ymchwilio i ychwanegion i leihau amonia sydd ar gael ar y farchnad, er mwyn gweld a ydynt yn gweithio fel dull gwahanol hyfyw. Bydd yr ychwanegion naill ai yn cael eu rhoi yn uniongyrchol yn y sarn neu eu rhoi drwy ddŵr yfed. Bydd pob fferm yn asesu'r ychwanegion er mwyn gweld yr effaith y maent yn eu cael ar:

- Lefelau amonia o fewn y sied ieir
- Cyflwr gwaelod y traed, yr egwyd a sgorio symudiad
- Cyflwr y plu
- Cyflwr y sarn
- Cyfradd marwolaeth yr adar
- Cymeriant bwyd a phwysau byw dyddiol



Ar ddiwedd y prosiect, bydd y grŵp yn gallu asesu effeithiolrwydd yr ychwanegion o ran eu gallu i leihau amonia a'r costau cysylltiedig.

Gweminarau

Mae enghreifftiau o'r gweminarau a gynhaliwyd yn cynnwys:



Rheoli tail eich dofednod

Bu ffermwyr a chynrychiolwyr o Gyfoeth Naturiol Cymru yn trafod yr heriau a'r cyfleoedd cyfredol y maen nhw'n eu hwynebu o fewn y diwydiant dofednod.

Y prif bynciau a drafodwyd yn y webinar oedd: ffosffad mewn cyrsiau dŵr, targedau amonia a'r arferion gorau i leihau amonia.

Gwnaeth y cyflwynydd Graham Leaver hefyd grybwyll rheoli maes cyfrifoldeb, gwerthoedd a storio tail, yn ogystal â thechnegau i osgoi dŵr ffo yn rhedeg i gyrsiau dŵr ayyb, wrth iddynt ystyried y rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol, nad oeddent wedi'u cadarnhau ar y pryd.

Lion Training Passport

Ymunodd Leroy Burrell o Poultec Training Limited â Cyswllt Ffermio ar gyfer gweminar am y Lion Training Passport newydd. Trafodwyd y pynciau canlynol yn ystod y webinar:

- Beth yw'r anghenion newydd?
- Sut i gydymffurfio?
- Ble allwn ni gael rhagor o wybodaeth?

Rheoliadau Adnoddau Dŵr Dofednod

Cyhoeddwyd newidiadau yn gynharach yn y flwyddyn ynghylch y mesurau rheoliadol i fynd i'r afael â llygredd amaethyddol. Mae'r newidiadau hyn yn berthnasol i bob fferm ledled Cymru. Gwnaeth y webinar ddarparu gwybodaeth ar sut bydd y newidiadau hyn yn effeithio ar fusnesau, yn ogystal ag esbonio iddynt beth yw'r anghenion.

